



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Julia Nicholls - Gwasanaethau Democrataidd (01443 424098)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn **Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX** ar **DYDD MERCHER, 18FED MAWRTH, 2020** am **5.00 PM**.

AGENDA

Tudalennau

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agenda y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw;
a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael

2. CYHOEDDIADAU

3. CYHOEDDIADAU

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2020 yn rhai cywir.

4. DATGANIADAU

Yn unol â Rheol 2 o Weithdrefn Llywodraethu Agored Cyfarfodydd y Cyngor, derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau Portffolio o'r Cabinet:

5. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU

Derbyn cwestiynau'r Aelodau yn unol â Rheol 9.2 o Weithdrefn y Cyngor.

(Nodwch: Caniateir hyd at 20 munud ar gyfer cwestiynau.)

27 - 32

RHAGLEN WAITH Y CYNGOR – ER GWYBODAETH I AELODAU

[RHAGLEN WAITH Y CYNGOR](#)

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

6. STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS GAN GYNNWYS Y STRATEGAETH FUDDSODDI, DANGOSYDDION RHEOLI'R TRYSORLYS A'R DATGANIAD DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW AR GYFER 2020/21

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol.

33 - 50

7. ADRODDIAD STRATEGAETH GYFALAF 2020/21 GAN GYNNWYS DANGOSYDDION DARBODUS

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol.

51 - 66

8. RHYBUDD O GYNNIG

Trafod y Rhybudd o Gynnig isod sydd wedi'i gyflwyno yn enwau'r Cynghorwyr J. James a L. Hooper:-

Amcangyfrifir bod 200,000 o blant y DU yn cael eu magu gan aelodau'r teulu neu ffrindiau. Gelwir trefniant o'r math hwn yn 'Ofal gan Berthnasau a Chyfeillion'.

Mae'r math yma o gynhalwyr (gofalwyr) yn gofalu am blant nad oes modd i'w rhieni eu hun edrych ar eu holau neu gadw'r teulu gyda'i gilydd. Mae teirgwaith y nifer o blant yn derbyn y math yma o ofal nag sy'n rhan o'r system ofal maeth genedlaethol, ac mae'r niferoedd yn cynyddu.

Gofal gan Berthnasau a Chyfeillion yw un o'r prif ffyrdd o roi sicrwydd, cysondeb ac ymdeimlad o berthyn i blant sy'n methu byw gyda'u rhieni, ac mae'n rhoi lefel uchel o sefydlogrwydd a chymorth parhaol iddyn nhw nes eu bod nhw'n oedolion ifanc.

Serch hynny, mae diffyg cysondeb yn y cymorth sy'n cael ei gynnig i'r cynhalwyr yma ar draws y wlad, ac mae cynhalwyr yn aml yn teimlo'n ynysig, yn unig ac wedi'u gadael heb gefnogaeth. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu'n llwyr â'r cymorth y mae modd i rieni maeth a rhieni sy'n mabwysiadu ei dderbyn.

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod y gwaith amhrisiadwy y mae cynhalwyr sy'n berthnasau a chyfeillion yn ei wneud ar ran eu hanwyliaid, yn aml mewn sefyllfaoedd anodd, ac mae'n ymrwymo i gynnig yr help, yr anogaeth a'r cymorth y maen nhw eu hangen

Mae'r Cyngor hwn yn gorchymyn i'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc ystyried adroddiad er mwyn edrych ar rôl gofal gan berthnasau a chyfeillion yn y Fwrdeistref Sirol ymhellach, ac i weithio'n agos gyda Grandparents Plus i nodi ym mha ffyrdd y gall fodloni anghenion y cynhalwyr hyn a'r plant sydd yn eu gofal.

9. MATERION BRYS

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu

At: Pob Aelod o'r Cyngor